# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2016

Amser: 08.30 – 08.38

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Andrew RT Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Paul Davies, ac roedd Andrew RT Davies yn dirprwyo.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16 dros dro ddydd Mercher er mwyn caniatáu i adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-16) gael ei drafod.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes dydd Mawrth yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Mick Antoniw yn gofyn am ddadl ar yr adroddiad a baratowyd ganddo ef, Rhodri Glyn Thomas AC a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau mewn ymateb i argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn y busnes a chytunodd i aildrefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 3 Chwefror 2016 -**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-16) (15 munud)~~ – *wedi'i symud i 27 Ionawr 2016*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 24 Chwefror 2016 –**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (60 munud)
- Dadl ar yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yr UE (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Tai a Chynllunio

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Tai a Chynllunio.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer gwaith craffu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn dydd Iau 25 Chwefror 2016 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 1 Mawrth 2016.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

### 5.1 Cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â'r broses ddeddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor bapur a oedd yn nodi cynigion manwl ar gyfer diwygio Rheol Sefydlog 26 yn seiliedig ar yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Materion

Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu yng Nghymru. Roedd y papur hefyd yn nodi diwygiadau amrywiol arfaethedig i Reol Sefydlog 26 er mwyn eglurder a chysondeb.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ac ailystyried y papur yn y cyfarfod ar 9 Chwefror 2016.

## Unrhyw fater arall

### *Adroddiad Etifeddiaeth*

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad Etifeddiaeth drafft i'r Clerc erbyn dydd Iau er mwyn gallu trafod yr adroddiad diwygiedig yn y cyfarfod ar 2 Chwefror.

### *Dadl gan Aelod Unigol*

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes nad oedd y Swyddfa Gyflwyno hyd yma wedi derbyn unrhyw gynigion, nac unrhyw ymholiadau gan Aelodau yn awgrymu eu bod yn bwriadu cyflwyno cynnig ar gyfer y Ddadl gan Aelod Unigol a drefnwyd ar gyfer 10 Chwefror. Dywedodd Rheolwyr Busnes eu bod yn ymwybodol o gynnig a oedd yn cael ei lunio.